



# **Cyngor y Gweithlu Addysg**

## **Gwrandawiadau o bell**

# Gwrandawiadau o bell: Priodoldeb i Ymarfer

O ganlyniad i'r cyfyngiadau sy'n parhau mewn grym yng Nghymru yn dilyn y pandemig Covid-19 yn ystod 2020, rydym wedi penderfynu, oni bai bod ffactorau eithriadol, y cynhelir pob gwrandawriad gan ddefnyddio proses gwrandawiadau **o bell**. Gwrandawriad o bell (y cyfeirir ato weithiau fel gwrandawriad rhithwir) yw un a gynhelir ar-lein, gan ddefnyddio cyswllt fideo.

Canllaw lefel uchel yw hwn sy'n egluro sut y byddwn yn cynnal gwrandawiadau o bell yn y tymor byr.

## Cefndir

### Ein cyfrifoldebau

A ninnau wedi ein sefydlu yn 2015 gan Ddeddf Addysg (Cymru) 2014, ni yw'r rheoleiddiwr proffesiynol annibynnol mwyaf yng Nghymru ar gyfer dros 80,000 o athrawon ysgol ac athrawon addysg bellach a staff cymorth dysgu, gweithwyr ieuentid/cymorth ieuentid cymwys ac ymarferwyr dysgu yn y gwaith.

Mae ein nodau yn cynnwys cynnal a gwella safonau ymddygiad proffesiynol ymhlith ein cofrestreion, diogelu buddiannau dysgwyr, rhieni a'r cyhoedd a chynnal ymddiriedaeth a hyder y cyhoedd yn y gweithlu addysg yng Nghymru. Gwnawn hyn drwy gadw Cofrestr o Ymarferwyr Addysg, a thrwy ymchwilio a gwrando honiadau o gamymddygiad, anghymhwysedd a throseddau sy'n codi amheuaeth ynghylch p'un a yw cofrestrai yn addas i barhau i ymarfer.

### Y Cod

Disgwylir i gofrestreion gadw at egwyddorion allweddol ein Cod Ymddygiad ac Ymarfer Proffesiynol. Gellir gweld y Cod yma.

### Deddfwriaeth

Rydym wedi'n rhwymo gan y gofyniad i wrando achosion fel yr amlinellir yn Neddf Addysg (Cymru) 2014, fel y'i diwygiwyd, a Rheoliadau Cyngor y Gweithlu Addysg (Prif Swyddogaethau) 2015, fel y'i diwygiwyd.

Rydym wedi'n rhwymo hefyd gan, ac yn ymroi i, ddyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus sy'n benodol i Gymru, Safonau Cymru a deddfwriaeth y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR).

### Egwyddorion a gymhwyswn

Rydym yn cymhwyso'r un egwyddorion sylfaenol i bob achos a gwrandawriad, sef egwyddorion **tegwch, effeithlonrwydd, tryloywder, didueddrwydd, cyfrinachedd a chyfiawnder naturiol**.

## Gwrandawriad o bell

Hyd yn oed yn y dyddiau digynsail hyn, mae cyfrifoldeb arnom o hyd i gyflawni ein nod a'n swyddogaethau.

Ar ôl gohirio ein gweithgarwch gwrandawiadau ers mis Mawrth, rydym wedi cael cyngor cyfreithiol sy'n cadarnhau bod parhau gyda gwrandawiadau o bell yn gymesur, yn deg ac er budd cyfiawnder. Gwyddwn

hefyd o'n hymchwil helaeth fod yr ymagwedd hon wedi bod ar waith ers cryn amser gan reoleiddwyr eraill, yn ogystal â'r farnwriaeth, gan alluogi'r system llysoedd i barhau i weithredu.

Gellir parhau i fodloni hawl cofrestrai i wrandawriad teg a chyhoeddus, a'i hawl i gyfranogi, trwy wrandawriad o bell. Fodd bynnag, mae'n agored i gofrestrai wrthwynebu i'w wrandawriad gael ei gynnal yn y ffordd hon. Caiff unrhyw wrthwynebiadau eu hystyried yn ofalus, a phenderfynir p'un ai a fydd y gwrandawriad i'w gynnal o bell, neu ei ohirio i ddyddiad diweddarach ar gyfer gwrandawriad ffisegol. Lle na roddir unrhyw wrthwynebiadau gerbron, cynhelir y gwrandawriad o bell.

### Proses

Bydd gwrandawriadau'n cael eu rheoli o bell gan ddefnyddio meddalwedd Zoom Professional, ac mae pob un o'n haelodau panel a staff wedi cael hyfforddiant i'w defnyddio.

Byddwn yn cyhoeddi canllawiau defnyddwyr Zoom Professional mewn da bryd i'r rheiny sy'n gysylltiedig â'r gwrandawriad, yn cynnal galwadau prawf ymlaen llaw ac ar y diwrnod. Gwnawn hyn i sicrhau bod y gwrandawriad yn cael ei gynnal mor hwylus ag y bo modd, er ein bod yn derbyn y gall problemau technegol godi o hyd. Bydd rhifau deialu uniongyrchol a chyfeiriadau e-bost ein Tîm yn cael eu darparu i gyfranogwyr ymlaen llaw er mwyn helpu datrys unrhyw broblemau'n gyflym ar y diwrnod.

Mae'r disgwyliad y bydd ein gwrandawriadau'n cael eu cynnal yn gyhoeddus yn parhau. Gall unrhyw aelod o'r cyhoedd neu'r wasg a fyddai'n dymuno 'ymuno' â gwrandawriad wneud hynny drwy roi'r cyfnod rhybudd priodol i ni. Byddwn yn darparu'r ddolen i wrandawriad 24 awr cyn iddo ddechrau i'r rhai sydd wedi trefnu i ymuno ag ef.

Mae'n bosibl y gall y cyfarfod cyfan, neu ran ohono, fynd yn breifat. Mae hyn yn golygu y bydd angen i unrhyw aelod o'r cyhoedd neu'r wasg adael y gwrandawriad, ac efallai na chânt eu gwahodd i ailymuno.

Byddwn yn parhau i recordio ein gwrandawriadau. Fodd bynnag, mae'n **gwbl waharddedig** i unrhyw berson arall wneud recordiad sain neu fideo, gwneud sgrin lun, tynnu llun, copïo neu rannu trafodion ein gwrandawriad.

### Gweithdrefn

Rydym yn derbyn y gall gwrandawriadau achosion o bell gymryd mwy o amser, ond fel arall mae ein proses yn parhau yr un peth fwy neu lai. Cadeirydd pwyllgor gwrandawriad sy'n rheoli'r modd y caiff gwrandawriad ei gynnal, ac mae'n gyfrifol am ddilyn y weithdrefn a bennwyd yn ein Gweithdrefn a Rheolau Disgyblu.

Mae cynghorwr cyfreithiol annibynnol yn eistedd gyda'r Pwyllgor i sicrhau bod y weithdrefn yn deg, ac i ddelio ag unrhyw bwyntiau cyfreithiol

Bydd ein staff yn monitro'n agos unrhyw doriadau yn y cysylltiad i unrhyw gyfranogwr, yn argymhell i'r Cadeirydd bod angen gohiriad, ac yn ceisio datrys y materion hynny'n gyflym.

Darparwn ganllawiau manwl mewn da bryd i gyfranogwyr cyn y gwrandawriad er mwyn paratoi.

## **Rhagor o wybodaeth**

Gallwch gysylltu â ni yn [priodoldebymarfer@cga.cymru](mailto:priodoldebymarfer@cga.cymru)

I gael gwybodaeth gyffredinol am CGA, ewch i [www.cga.cymru](http://www.cga.cymru)